**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LN/0191/26

Senedd Ieuenctid Cymru
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1SN

helo@seneddieuenctid.cymru

26 Mawrth 2026

Annwyl Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru,

Diolch am yr adroddiad 'Yn ddiogel, wedi'u cynnwys a'u clywed' gan y Pwyllgor Trosedd a Diogelwch. Mae eich gwaith yn tynnu sylw at yr heriau gwirioneddol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu gydag ymddygiad mewn ysgolion ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd creu amgylcheddau diogel, parchus i ddysgwyr a staff ysgolion. Mae eich ymrwymiad i fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn wedi sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc ledled Cymru yn cael eu clywed, gan adeiladu ar y cynnydd yn dilyn yr Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol yn 2025.

Fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, mae gwella ymddygiad mewn ysgolion yn un o fy mhrif flaenoriaethau. Rwyf am i bob ystafell ddosbarth yng Nghymru fod yn fan lle mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cefnogi. Mae eich adroddiad yn cynnig darlun hanfodol bwysig o brofiadau dydd i ddydd plant a phobl ifanc. Mae'r canfyddiadau yn cyfleu eu lleisiau ac, yn bwysicaf oll, eu syniadau ar sut y gallwn feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol yn ein hysgolion. Mae'n bleser gennyf gadarnhau fy mod yn derbyn yr holl argymhellion yn eich adroddiad.

Drwy ein helpu i wella ymddygiad, rydych chi'n chwarae rhan bwysig o ran gwneud ystafelloedd dosbarth yn fwy diogel ac yn fwy parchus i bawb. Mae eich canfyddiadau yn tynnu sylw at nifer o faterion, pryderon a syniadau pwysig. Hoffwn eich sicrhau fy mod i a'r swyddogion wedi ystyried eich argymhellion yn ofalus. Bydd gan eich canfyddiadau rôl bwysig i’w chwarae wrth lywio'r polisïau a ddatblygwn ac a weithredwn wrth inni barhau â'n gwaith trawsnewidiol i greu amodau lle gall pob dysgwr ffynnu.

Mae llawer o'ch argymhellion yn gysylltiedig â'r Pum Cam i'w Cymryd ar Unwaith a gyhoeddais ar ôl yr Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol. Mae'r camau hyn yn cynnwys gwella sut mae gwahanol wasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ysgolion,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

creu gwell hyfforddiant a chanllawiau cliriach i ysgolion ar ymddygiad a diogelwch, rhannu enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio'n dda, a sicrhau bod achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad a diogelwch yn cael eu cofnodi a'u hadrodd mewn ffordd glir a chyson.

Mae'r camau hyn, ynghyd â'm hymrwymiad ehangach i gadw plant a phobl ifanc wrth wraidd y gwaith hwn, yn dangos ein bod ni'n cymryd y materion yr ydych wedi'u codi o ddifrif. Y tymor hwn, rwyf eisoes wedi gallu rhannu nifer o gyhoeddiadau cadarnhaol, gan gynnwys gwaith i ddatblygu canllawiau Cymru gyfan newydd i gefnogi diogelwch ysgolion, a gwaith partneriaeth newydd gyda lluoedd Heddlu Cymru.

Byddaf yn awr yn ymateb i bob un o'ch argymhellion yn eu tro, fel bod gennych ddealltwriaeth glir o'n safbwynt a, phan fo hynny'n berthnasol, y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd.

**Argymhelliad 1:**

Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud hi'n flaenoriaeth i weithredu i wella'r profiad ar gyfer pobl ifanc o grwpiau sy'n cael eu hymylu yn y llefydd maent yn cael eu haddysg. Dylai adeiladu ar ein gwaith ac ymgysylltu ymhellach â'r grwpiau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn i ddarganfod datrysiadau a fydd yn gwella eu diogelwch ac felly eu profiadau addysg.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pob person ifanc yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd y maent yn eu haeddu. Cenhadaeth ein cenedl yw cyflawni safonau a dyheadau uchel i bob dysgwr - rwy'n cydnabod bod angen mwy nag uchelgais i gyflawni gwir degwch, mae angen cael gwared ar rwystrau a darparu cymorth wedi'i dargedu sy'n diwallu anghenion amrywiol pob dysgwr.

Rydym wedi cryfhau ein dull gweithredu drwy ddyfnhau ein hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwthio i'r ymylon. Mae eu profiad bywyd yn hanfodol i lunio polisïau sy'n gweithio yn ymarferol.

Drwy ariannu Plant yng Nghymru i weithredu Cymru Ifanc ar ein rhan, rwyf wedi sicrhau bod lleisiau pobl ifanc nid yn unig yn cael eu clywed, ond yn dylanwadu'n uniongyrchol ar brosesau gwneud penderfyniadau'r llywodraeth. Mae hyn eisoes wedi rhoi gwell dealltwriaeth inni o flaenoriaethau grwpiau amrywiol o ddysgwyr ac mae'n llywio datblygiad polisïau addysg mwy cynhwysol a theg.

Rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol drwy weithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr ar gamau gweithredu addysg gynhwysol y Cynllun Gweithredu LHDTC+, ac mae mewnbwn pobl ifanc wedi siapio'r cynigion newydd yn y Cynllun Drafft ar Hawliau Pobl Anabl. Rydym hefyd yn ymgymryd â gwaith ymgysylltu wedi'i ffocysu â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Rydym hefyd yn ehangu ein sylfaen dystiolaeth drwy ymchwil wedi'i thargedu. Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol i ddeall eu profiadau a'u hanghenion yn well. Ochr yn ochr â hyn, mae ymchwil bwrpasol ar y gweill i wella ein dealltwriaeth o sut y gellir cefnogi gofalwyr ifanc yn well ym maes addysg.

Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ein Canllawiau Gwrth-fwlio Hawliau, Parch, Cydraddoldeb ym mis Mawrth 2026. Mae'r canllawiau wedi'u hadolygu i gryfhau dulliau atal a mynd i'r afael â bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn, gan gynnwys bwlio y gall grwpiau o blant sydd wedi'u hymyleiddio ei ddioddef.

Gyda'i gilydd, mae'r gwaith hwn yn dangos nid yn unig ein hymrwymiad, ond y cynnydd sylweddol yr ydym yn ei wneud tuag at system addysg sy'n deg, yn gynhwysol ac yn ymatebol i bob dysgwr.

**Argymhelliad 2:**

Adolygu canllawiau ar gyfer ysgolion a cholegau yn ymwneud ag adrodd am ddigwyddiadau, a gweithdrefnau a systemau diogelwch, i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu tynhau fel bod pobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Mae'r argymhelliad hwn yn cysylltu'n agos â'r camau gweithredu o Gyfarfod Bord Gron Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch a Thrais mewn Ysgolion a Cholegau yn 2025. Un o'r prif ddeilliannau oedd ymrwymiad i ddatblygu canllawiau a hyfforddiant newydd i helpu ysgolion i gadw dysgwyr a staff yn ddiogel. Ers hynny, rydym wedi gwneud cynnydd pwysig i gryfhau diogelwch ysgolion.

Fe wnaethom groesawu Canllawiau ar Arfau mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysgol Cyngor Caerdydd fel cam cadarnhaol ymlaen, gan ddangos sut y gall ardaloedd lleol weithredu i ddiogelu dysgwyr a staff.

Er mwyn sicrhau bod gan bob ysgol a choleg yng Nghymru fesurau diogelwch cryf a chyson, rwyf wedi gofyn i Gyngor Caerdydd arwain gwaith gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i ddatblygu dull cenedlaethol o gefnogi diogelwch mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru. Bydd hyfforddiant, canllawiau ac adnoddau newydd ar gael cyn gynted â phosibl.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r pedwar Heddlu yng Nghymru. Gyda'n gilydd, rydym yn helpu i greu partneriaethau cryfach rhwng yr heddlu, awdurdodau lleol ac ysgolion.

Mae'r holl waith hwn yn gysylltiedig â'n Rhaglen Ysgolion Bro i sicrhau bod diogelwch a diogelu yn rhan o ddiwylliant bob dydd ysgolion a cholegau i greu mannau lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

**Argymhelliad 3:**

Parhau ag ymdrechion i wella cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion a cholegau, gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael â stigma ynghylch cael cefnogaeth, gwella ansawdd y cymorth sydd ar gael, a sicrhau bod mannau diogel ar gael i leihau straen. Mae angen rhoi cynlluniau clir ar waith i gefnogi disgyblion yn y cyfnod cyn adegau llawn straen, fel cyfnodau arholiadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwelliannau mawr i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc. Bob blwyddyn, mae dros £13 miliwn yn cael ei fuddsoddi i gryfhau gwasanaethau iechyd meddwl i ddysgwyr drwy ein Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant. Mae hyn yn cynnwys bron i £5 miliwn er mwyn ehangu cwnsela mewn ysgolion a chymunedau, darparu rhaglenni llesiant, a chynnig hyfforddiant sy'n helpu staff a dysgwyr i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Rydym hefyd wedi darparu dros £5 miliwn i Fyrddau Iechyd Lleol fel y gall y gwasanaeth mewngymorth cenedlaethol i ysgolion, CAMHS, ddarparu mwy o gymorth mewn ysgolion.

Mae cael mannau tawel, diogel yn yr ysgol yn hanfodol ar gyfer llesiant ac ymddygiad cadarnhaol. Mae canllawiau ein dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol, y mae'n ofynnol i ysgolion eu dilyn, yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw amgylchedd yr ysgol, gan gynnwys creu ardaloedd lle gall dysgwyr ymlacio, myfyrio a theimlo'n ddiogel.

Fel rhan o'n gwaith ehangach i wella ymddygiad, rydym bellach yn edrych yn fanwl ar sut y gall ysgolion greu amgylcheddau cefnogol, tawel, gan gynnwys ardaloedd diogel pwrpasol lle gall pobl ifanc reoli eu hemosiynau a theimlo'n fwy diogel. Mae eich argymhellion wedi helpu i lunio ein dull gweithredu ar gyfer pecyn newydd o gymorth i ysgolion, a lansiwyd ym mis Chwefror.

Mae'r pecyn hwn yn edrych ar ffyrdd o gefnogi dysgwyr sydd weithiau'n gweld amgylchedd yr ysgol yn anodd. Trwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau perfformio, bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i archwilio materion sy'n effeithio ar eu cysylltiad â'r ysgol, gan gynnwys lles a hunan-barch. Trwy gymorth un-i-un, gwaith grŵp a gweithgareddau rhyngweithiol fel pêl-fasged a drama, bydd y dulliau hyn yn helpu dysgwyr i ailgysylltu â'r ysgol. Mae hyn ar ben cynnydd o £1 miliwn yn 2026-27, i £3 miliwn, i gefnogi gweithgareddau cyfoethogi i ddysgwyr ledled Cymru, yn ystod ac o amgylch y diwrnod ysgol.

Rydym wedi bod yn pryderu bod timau mewngymorth CAMHS mewn ysgolion yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd ledled Cymru a bod amrywiaeth yn y gefnogaeth i bobl ifanc. Rydym felly yn gwneud newidiadau i sicrhau bod timau ledled Cymru yn gweithredu'n gyson. Rydym am i bobl ifanc ledled Cymru gael mynediad at gymorth cyson, o ansawdd uchel.

Rwy'n croesawu'n fawr y gwelliannau rydych wedi'u tynnu sylw atynt ers cyhoeddi adroddiad Meddyliau Iau o Bwys, ond rwy'n gwybod bod gennym fwy i'w wneud ac rwy'n gobeithio y bydd eich lleisiau yn parhau i sbarduno newid ac y byddwch yn parhau i ddal Llywodraeth Cymru yn atebol am hyn.

**Argymhelliad 4:**

Rhoi mwy o lais i ddisgyblion, a sicrhau bod pobl ifanc o bob oed yn rhan o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau ynghylch diogelwch, cynhwysiant, a'r amgylchedd addysgol cyffredinol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Mae adroddiad eich ymgynghoriad yn enghraifft bwerus a chalonogol o sut y gall llais y dysgwr arwain at newid gwirioneddol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod barn pobl ifanc yn cael dylanwad cryf ar benderfyniadau, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag aelodau o'r Senedd Ieuenctid, fel bod eich safbwyntiau yn siapio'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio arnoch chi.

Hoffem glywed eich barn ynghylch y dulliau gweithredu mwyaf effeithiol a nodwyd drwy eich ymgynghoriad i gynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau pwysig a rhannu enghreifftiau o arferion da ledled Cymru.

Bydd gweithio gyda'n gilydd yn y modd hwn yn ein helpu i hyrwyddo dulliau sy'n grymuso dysgwyr, yn cryfhau cyfranogiad, ac yn creu diwylliant lle mae eich barn wrth galon gwella ysgolion a'r system addysg ehangach. Edrychaf ymlaen at ddysgu rhagor am yr enghreifftiau yr ydych wedi'u hamlygu, gan adeiladu ar y gwaith cadarnhaol sydd eisoes yn digwydd yn ein hysgolion.

Fel y nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 1, rydym yn ariannu Plant yng Nghymru i redeg Cymru Ifanc, sy'n rhoi llais uniongyrchol i blant a phobl ifanc o ran llunio polisïau'r llywodraeth.

Drwy ein Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol, rydym hefyd wedi creu Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol. Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd gymysgedd amrywiol o blant a phobl ifanc sy'n helpu i lunio polisïau ac arferion i wella llesiant mewn ysgolion.

Rydym hefyd wedi datblygu adnoddau dysgu proffesiynol i gefnogi staff ysgolion i ddeall Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Mae'r hyfforddiant hwn ar gael ar Hwb ac mae'n cynnwys canllawiau ar ddull gweithredu hawliau dynol y Comisiynydd Plant. Mae'r hyfforddiant hefyd yn rhannu offer ac adnoddau sy'n helpu ysgolion i gryfhau llais y dysgwr a chyfranogiad ystyrlon.

Rwy'n gwerthfawrogi bod rhagor i'w wneud, ac rydym wedi ymrwymo i gryfhau y ffordd rydym yn gwrando ar blant a phobl ifanc, fel bod pob person ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn teimlo bod eu lleisiau wir yn cael eu clywed.

**Argymhelliad 5:**

Gwneud gwersi yn fwy diddorol, rhyngweithiol a pherthnasol i faterion sy’n bwysig i bobl ifanc, fel bod disgyblion yn teimlo'n rhan o bethau ac yn llawn cymhelliant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Mae llais y dysgwr yn un o egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru ac mae eisoes yn sbarduno newid gwirioneddol yn y ffordd y mae dysgu yn cael ei gynllunio a'i brofi. Crëwyd y cwricwlwm i sicrhau bod dysgwyr yn bartneriaid gweithredol yn eu haddysg, nid dim ond cyfranogwyr. Anogir ysgolion i weithio gyda dysgwyr i ddatblygu profiadau diddorol, gan eu galluogi hwy i lunio'r cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu diddordebau, eu hanghenion a'u profiadau bywyd.

I gefnogi hyn, mae Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys canllawiau Galluogi Dysgu. Mae hyn yn helpu athrawon i gynllunio a chyflwyno cwricwlwm cynhwysol, priodol er mwyn ymateb i bob dysgwr. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar ddeall anghenion ac amgylchiadau unigol, fel bod addysgu yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb.

Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i ddatblygu o amgylch y canlynol:

- Oedolion sy'n galluogi dysgu – staff sy'n gwrando, yn rhoi arweiniad ac yn ymateb i anghenion y dysgwyr.
- Profiadau sy'n ennyn diddordeb – dysgu sy'n ddiddorol, yn berthnasol ac yn heriol.
- Amgylcheddau effeithiol – nid ardaloedd ffisegol yn unig, ond hinsawdd emosiynol lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei barchu ac yn gallu gwireddu ei botensial.

Rydym yn gweld yr egwyddorion hyn mewn mwy o ysgolion ledled Cymru, ac rydym wedi ymrwymo i'w cryfhau ymhellach. Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd. Byddwn hefyd yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio'n dda, fel y gallwn wneud yn siŵr bod mwy o blant a phobl ifanc yn elwa ar yr egwyddorion hyn.

**Argymhelliad 6:**

Gwneud yn siŵr bod gan ysgolion a cholegau'r adnoddau angenrheidiol i alluogi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad at gymorth uniongyrchol un–i-un gan athrawon a staff. Dylent hefyd gael adnoddau i ddarparu mwy o weithgareddau cymdeithasol a grwpiau cymdeithasol a fydd yn helpu i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion a staff.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Rydym yn gwybod y gall clybiau, grwpiau a chymdeithasau wneud gwahaniaeth sylweddol i faint o gysylltiad a chefnogaeth y mae pobl ifanc yn ei deimlo yn yr ysgol. Dyma pam yr ydym wedi buddsoddi dros £31 miliwn i helpu ysgolion i ddod yn Ysgolion Bro sy'n meithrin perthynas gref â sefydliadau lleol, cymunedau, a chyda dysgwyr a'u teuluoedd. Mae'r buddsoddiad hwn eisoes yn helpu ysgolion i greu amgylcheddau mwy croesawgar ac yn cynnig cefnogaeth gryfach i bobl ifanc.

Er mwyn helpu ysgolion i wneud hyd yn oed mwy i'w dysgwyr, rydym wedi darparu cyllid ychwanegol fel y gallant gynnig ystod ehangach o weithgareddau creadigol, diwylliannol, "gweithgareddau cyfoethogi" a rhai'n ymwneud â chwaraeon. Bydd y cymorth ychwanegol hwn yn helpu ysgolion i ddarparu cyfleoedd yn ystod y diwrnod ysgol a phob pen iddo, gan gynnwys clybiau chwaraeon, gweithdai celf, sesiynau cerddoriaeth, teithiau, prosiectau diwylliannol a gweithgareddau eraill sy'n helpu dysgwyr i deimlo mwy o gysylltiad, i deimlo'n fwy hyderus ac i deimlo'n rhan o fywyd yr ysgol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gweithgareddau cyfoethogi yn helpu i wella llesiant emosiynol dysgwyr, yn codi eu dyheadau a'u cyflawniad, yn rhoi hwb i ymgysylltiad yn yr ysgol, ac yn cefnogi ffyrdd iachach o fyw drwy fwy o weithgarwch corfforol a bwyta'n iachach.

Wrth inni barhau i ddatblygu'r gwaith hwn, rwy'n awyddus i glywed eich barn am weithgareddau, clybiau a chyfleoedd eraill a fyddai'n apelio i bobl ifanc. Bydd eich syniadau yn helpu i lunio'r camau nesaf, felly mae cyfleoedd mewn ysgolion wir yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl ifanc am ei weld a'r hyn y maent ei angen.

**Argymhelliad 7:**

Darparu mwy o wersi i ddisgyblion, a hyfforddiant i staff, sy'n dangos canlyniadau troseddau difrifol, sut i gadw'n ddiogel, perthnasoedd iach, ymddygiad cadarnhaol, ac amrywiaeth a chynhwysiant i wella'r profiad addysgol i bob person ifanc gan gynnwys y rhai o grwpiau sydd wedi'u hymylu. Rhaid gweld hon fel rhaglen ystyrlon a pharhaus, nid ymarfer ticio blychau sy'n digwydd dim ond un tro.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Un o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yw helpu dysgwyr i ddod yn 'unigolion iach, hyderus' sy'n gallu meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chyfrannu at gymdeithas barchus a chynhwysol.

O fewn y cwricwlwm, mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn orfodol ac yn cefnogi dysgwyr i ddeall a chydnabod perthnasoedd iach, i barchu amrywiaeth, ac i ddatblygu empathi. Mae hefyd yn rhoi i'r dysgwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i herio ymddygiadau niweidiol, gan gynnwys bwlio, ac i hyrwyddo caredigrwydd a chynhwysiant.

Un o'r themâu allweddol ar draws ACRh a'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yw diogelwch ar-lein. Mae'r dysgwyr yn archwilio sut y gall gweithgarwch digidol effeithio ar berthnasoedd, llesiant a diogelwch personol. Mae hyn yn cynnwys llywio heriau bywyd, rheoli risgiau a niwed ar-lein, a chydnabod ymddygiadau niweidiol.

Er mwyn cefnogi ysgolion i ddarparu ACRh o ansawdd uchel, rydym yn buddsoddi £4.2 miliwn i ddarparu cymorth cenedlaethol ar gyfer ACRh drwy'r [Prosiect Addysg Cwtch](). Bydd y cyllid hwn yn sicrhau cynghorwyr ACRh pwrpasol ym mhob ardal awdurdod lleol, gan sicrhau cefnogaeth gyson o ansawdd uchel i bob ysgol a lleoliad yng Nghymru. Bydd y prosiect yn cynnig adnoddau ymarferol, cyngor a hyfforddiant i gefnogi athrawon fel y gallant greu profiadau dysgu perthnasol sy'n ennyn diddordeb yn yr ystafell ddosbarth.

Caiff ysgolion eu hannog i weithio gyda dysgwyr i siapio'r gwersi ACRh mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu diddordebau, eu hanghenion a'u pryderon. Trwy prosiect Cwtch, gall ysgolion gryfhau llais y dysgwr hyd yn oed ymhellach, drwy roi barn pobl ifanc wrth wraidd cynllunio a chyflwyno ACRh i sicrhau bod y cwricwlwm yn berthnasol ac yn ymateb i'w anghenion.

**Argymhelliad 8:**

Darparu cymorth a hwyluso rhannu arfer da a chanllawiau i ysgolion a cholegau, er mwyn gwella cysondeb ledled y wlad mewn perthynas â chynhwysiant, rheoli ymddygiad disgyblion a bwlio.

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

Rydym wedi adolygu ein Canllawiau Gwrth-fwlio Hawliau, Parchu Cydraddoldeb yn dilyn ymgynghoriad. Sicrhaodd yr adborth fod y canllawiau newydd yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf, a sylwadau gan ddysgwyr, ymarferwyr a sefydliadau arbenigol.

Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru, a fydd yn cael eu cyhoeddi mis Mawrth 2026, yn gosod ffocws cadarnach ar atal ac ymateb i fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn, a gwneud amgylcheddau ein hysgolion yn fwy diogel ac yn fwy cynhwysol i bawb.

Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, lansiwyd Pecyn Cymorth Ymddygiad newydd ar gyfer staff ysgol, sy'n dwyn ynghyd ymchwil gyfredol a'r enghreifftiau gorau o'r hyn sy'n gweithio i annog ymddygiad cadarnhaol. Bellach mae gan ysgolion ledled Cymru adnoddau cliriach, mwy ymarferol i helpu i greu ardaloedd dysgu tawelach, mwy parchus. Rydym hefyd yn cwblhau gwaith ar ganllawiau newydd ar ffonau symudol, i helpu ysgolion i reoli dyfeisiau symudol mewn ffordd gyson.

Gan gyflawni camau gweithredu o'r Uwchgynhadledd Ymddygiad, rydym yn parhau i weithio gyda phobl ifanc, staff ysgolion a rhieni er mwyn ystyried camau pellach i wella ymddygiad a sicrhau bod ysgolion yn teimlo’n fwy diogel. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion a phrifysgolion ledled Cymru i edrych ar ffyrdd effeithiol o gefnogi ac annog ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion. Drwy ddysgu o’r hyn sy’n gweithio, gallwn rannu’r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol gyda’r holl ysgolion.

Drwy gadw'r sgwrs hon yn effro a gwrando'n astud ar eich profiadau, gallwn sicrhau bod polisïau’r dyfodol mewn perthynas ag ymddygiad yn adlewyrchu'r hyn sydd wir yn gweithio mewn lleoliadau ysgol go iawn, gan barhau i ymateb i anghenion dysgwyr a chymunedau ledled Cymru.

Fe welwch isod ymateb i'r pwyntiau ychwanegol am eglurhad sy'n cael eu codi yn eich llythyr:

- *Rhagor o wybodaeth am y £4.2 miliwn a fuddsoddwyd ym mhrosiect addysg CWTCH ar gyfer cynghorwyr penodol ym maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ym mhob awdurdod lleol. Hoffai'r pwyllgor gael mwy o fanylion ynghylch natur y rôl hon, a beth fydd pobl ifanc yn ei weld o ganlyniad i'r buddsoddiad hwnnw.*

  Gweler yr wybodaeth fanwl a ddarperir mewn ymateb i argymhelliad 7.

- *O ran llais y disgybl, hoffai'r pwyllgor wybod beth fydd yn cael ei wneud i wella ansawdd y ddarpariaeth yn y maes hwn, oherwydd nid yw ymdrechion amlwg ysgolion a cholegau i gynnig y ddarpariaeth hon yn dwyn ffrwyth yn effeithiol ar hyn o bryd, yn ein barn ni.*

  Gweler yr wybodaeth fanwl a ddarperir mewn ymateb i argymhelliad 4.

- *Sut fydd Llywodraeth Cymru (ac unrhyw gyrff perthnasol eraill) yn mynd ati i fesur cynnydd, a beth yw'r amserlen ar gyfer y gwelliannau y gallwn eu disgwyl ar draws y gwahanol feysydd a amlinellir yn yr adroddiad?*

  *Gwerthuso'r rhaglen waith ymddygiad*
  Rydym yn adolygu'r cynnydd yn barhaus i gyflawni'r pum cam gweithredu uniongyrchol i wella ymddygiad mewn ysgolion. Y tymor hwn, rwyf wedi gwneud cyfres o gyhoeddiadau i rannu'r cynnydd cadarnhaol a wneir, gan gynnwys ein llwyddiannau ers yr Uwchgynhadledd ar Ymddygiad, pecyn cymorth newydd ar ymddygiad i ysgolion a lansiwyd mis Chwefror, a sgwrs ehangach ar wahardd ffonau symudol mewn ysgolion ym mis Mawrth er mwyn helpu i lunio'r camau nesaf.

  Rydym hefyd yn datblygu ymhellach y ffordd rydym yn mesur effaith gwaith ehangach ar ymddygiad. Bydd cam cyntaf y gwerthusiad hwn yn cael ei gefnogi gan brifysgolion ledled Cymru. Rwyf wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu gyda phobl ifanc ac ysgolion a cholegau fel bod pob llais yn cael ei glywed ac fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i'r atebion cywir. Nid oes ateb cyflym, ond drwy weithio gyda dysgwyr, ysgolion, rhieni a phartneriaid, gallwn wneud newid parhaol a chadarnhaol.

  *Monitro cymorth llesiant mewn ysgolion*
  Rydym wedi bod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ers sawl blwyddyn i helpu ysgolion i ddeall eu hanghenion llesiant a chreu cynlluniau i'w cefnogi. Oherwydd bod y gwaith hwn mor bwysig, mae'r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn flaenoriaeth i bob ysgol uwchradd gael cynllun llesiant ar waith erbyn diwedd tymor y Senedd hon.

  Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos, erbyn mis Mawrth 2026, bod gan 97% o'r holl ysgolion gynlluniau gweithredu i ddiwallu eu hanghenion llesiant. Mae hyn yn cynnwys pob ysgol uwchradd yng Nghymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion sy'n weddill i'w helpu i roi eu cynlluniau llesiant ar waith.

  Mae Estyn, ein Arolygiaeth Addysg, yn monitro pa mor dda mae ysgolion yn cefnogi lles dysgwyr pan fyddant yn ymweld ag ysgolion i gynnal arolwg. Maent yn darparu adborth i helpu ysgolion i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella.

  Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Phrifysgol Caerdydd. Mae SHRN yn casglu gwybodaeth drwy arolygon a lenwir gan fyfyrwyr ac ysgolion yng Nghymru i wella iechyd a lles drwy bolisïau cenedlaethol. Mae Holiadur Amgylchedd Ysgol SHRN yn arolwg sy'n

gofyn i ysgolion am y pethau maen nhw'n eu gwneud i gefnogi iechyd a llesiant myfyrwyr. Mae'r wybodaeth hon yn helpu SHRN i ddeall beth mae ysgolion yn ei wneud yn dda a lle gallai fod angen cymorth ychwanegol.

*Gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol*
Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cael ei werthuso gan ymchwilwyr yn Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil Llywodraeth Cymru i ddeall pa mor dda mae'r cynllun yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys set o fesurau a dangosfwrdd data sy'n dangos cynnydd mewn gwahanol feysydd o'r cynllun.

Mae dull gweithredu'r gwerthusiad yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd yn edrych ar sut mae'r cynllun yn cael ei roi ar waith a pha newidiadau cynnar y mae'n eu gwneud. Bydd y canfyddiadau yn cael eu cyflwyno yn 2026 a 2027. Ar ôl hynny, bydd gwerthusiad tymor hwy i weld effaith lawn y cynllun dros amser.

- *A allwch nodi pa ffrydiau gwaith sy'n gysylltiedig â themâu'r adroddiad fydd yn cael eu cyflawni cyn yr etholiad, a sut y gall y pwyllgor fod yn rhan o'r gwaith hwnnw, neu'r gwaith mewn meysydd perthnasol eraill, yn ystod y misoedd nesaf.*

  Yn y cyfnod cyn yr etholiad, rwyf wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â nifer o ffrydiau gwaith sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r themâu yn eich adroddiad, gan gynnwys:

  - **Cryfhau perthnasoedd cadarnhaol a diwylliant yr ysgol:** Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i ymgorffori dulliau ysgol gyfan sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, llesiant a chynhwysiant drwy becyn cymorth newydd ar ymddygiad a lansiwyd ym mis Chwefror.

  - **Gwaith ymgysylltu â dysgwyr wedi'i dargedu:** Byddwn yn gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc i drafod eich ymgynghoriad a gwrando ar eu sylwadau. Bydd trafodaethau gyda dysgwyr o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn digwydd y tymor hwn.

  - **Gwella cysondeb o ran cymorth ymddygiad:** Rydym yn cyflymu'r gwaith gyda phartneriaid i wella'r canllawiau a'r cymorth sydd ar gael i ysgolion ar ymddygiad a diogelwch. Bydd canllawiau newydd ar gael yn ystod y flwyddyn ysgol 2026-27.

  Byddem yn gwerthfawrogi cyfleoedd i edrych ar enghreifftiau o arferion da a gasglwyd yn ystod eich ymgynghoriad, yn arbennig y rhai sy'n gysylltiedig â llais y dysgwyr, ac fe fyddem yn croesawu eich syniadau ynghylch gweithgareddau a chlybiau y mae pobl ifanc yn eu mwynhau er mwyn eu helpu i deimlo cysylltiad cryfach â'r ysgol.

- *Mae'r pwyllgor hefyd yn awyddus i fod yn rhan o drafodaethau ynghylch trosedd a diogelwch sy'n effeithio ar bobl ifanc y tu hwnt i leoliadau addysg. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu unrhyw gyfleoedd i gymryd rhan yn y meysydd hynny hefyd.*

  Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, yr heddlu a sefydliadau eraill i helpu i leihau troseddu, fel bod Cymru'n fwy diogel i bawb. Yn 2019, cyhoeddwyd Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, sy'n amlinellu dull gweithredu 'plant yn gyntaf'. Mae hyn yn golygu ein bod yn canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc a'r ffordd orau o gefnogi'r rhai sydd yn y system gyfiawnder neu sydd mewn perygl o fynd i mewn iddi.

Gobeithio y bydd eich ymgynghoriad a'ch adroddiad yn nodi dechrau cyfraniad parhaus Senedd Ieuenctid Cymru i'r gwaith o wella diogelwch ac ymddygiad mewn ysgolion. Rwy'n awyddus i ddysgu mwy am yr arferion da a amlygwyd gennych, yn enwedig mewn perthynas â llais y dysgwr.

Bydd eich gwaith, a'r adroddiad hwn yn arbennig, yn chwarae rhan bwysig wrth lunio ein sgwrs genedlaethol barhaus ar ymddygiad. Bydd yn helpu i ddatblygu'r weledigaeth a rennir gennym i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn gadarnhaol, yn gynhwysol ac yn ddylanwadol. Edrychaf ymlaen at barhau i gydweithio a byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf wrth inni ysgogi cynnydd i ddysgwyr ledled Cymru.

Diolch eto am eich gwaith caled a’ch ymroddiad.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education